

Arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Adran Radioleg, Ysbyty Athrofaol
y Faenor – Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 16 a 17
Tachwedd 2021

Dyddiad cyhoeddi: 18 Chwefror
2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
3.	Yr hyn a ganfuom.....	9
	Ansawdd profiad y claf	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	32
4.	Beth nesaf?	39
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio...	41
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	43
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	44
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	45

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Adran Radioleg yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 16 a 17 Tachwedd 2021.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac uwchswyddog clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, a gyflawnodd swyddogaeth gynghori.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017
- Bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015)

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Arddangosodd tystiolaeth a ddarparwyd trwy gydol yr arolygiad fod cydymffurfedd da â RhYŷ(CM) 2017.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran. Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion, a chanfuom fod staff yn trin cleifion mewn modd caredig, parchus a phroffesiynol.

Yn gyffredinol, roedd staff yn hapus â lefel y cymorth a ddarperir gan eu rheolwr llinell uniongyrchol ac uwch-reolwyr yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, amlygwyd pryderon mewn perthynas â rhai aelodau o staff yn nodi eu bod wedi wynebu gwahaniaethu yn y gweithle o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd trafodaethau â staff trwy gydol ein harolygiad yn rhoi sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel. Fodd bynnag, amlygwyd rhai meysydd i'w gwella, gan gynnwys yr angen i adolygu'r broses ar gyfer atgyfeiriadau'r Adran Achosion Brys.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau digonol ar waith i helpu'r staff i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion sy'n mynychu'r adran, gyda chynlluniau i wella'r trefniadau hyn ymhellach yn y dyfodol agos
- Tystiolaeth o archwiliadau clinigol manwl yn cael eu cynnal fel rhan o amserlen archwilio gyffredinol
- Tystiolaeth glir i arddangos bod rhyngweithio ac ymgysylltu da rhwng arbenigwyr ffiseg feddygol a'r adran
- Tystiolaeth glir o raglen sicrhau ansawdd cyfarpar gadarn, gyda gwiriadau rheoli ansawdd yn cael eu cynnal gan dîm o radiograffwyr wedi'u hyfforddi
- Tystiolaeth glir o optimeiddio, gan gynnwys lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar waith ar gyfer archwiliadau a gyflawnir yn gyffredin, a gwaith

parhaol i osod lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gyfer archwiliadau ymyriadol

- Tystiolaeth glir o ddiwylliant adrodd cadarnhaol
- Roedd cofnodion hyfforddiant, cymhwysedd a hawl deiliaid dyletswydd a adolygwyd yn glir a chynhwysfawr
- Roedd trefniadau priodol wedi'u gweithredu er mwyn atal heintiau yn yr adran yn effeithiol

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid gweithredu trefniadau i gasglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran ac i sicrhau bod gwybodaeth ynghylch adborth ac unrhyw gamau dilynol a gymerir yn cael ei rhannu â'r cleifion a'r staff
- Sicrhau bod gweithdrefnau'r cyflogwr a dogfennau cysylltiedig yn cael eu diweddarau, lle y bo angen, fel bod gwybodaeth yn adlewyrchu'r arferion a threfniadau cyfredol sydd ar waith yn yr adran
- Rhoi dulliau ar waith i roi gwybodaeth i atgyfeirwyr anfeddygol sy'n amlinellu eu hawl a chwmpas eu hymarfer
- Sicrhau bod yr holl staff yn gyfredol â hyfforddiant gorfodol ac adolygiadau datblygu arfarniadau personol
- Amlygwyd nifer o feysydd lle roedd gofyn am fanylion ychwanegol mewn dogfennau ysgrifenedig i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 1 Hydref 2009 ac mae'n darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl i'r bobl ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a rhannau deheuol Powys.

Mae'r bwrdd iechyd yn ei gyfanrwydd yn gwasanaethu poblogaeth o fwy na 600,000 o bobl ac mae nifer o'r gwasanaethau cleifion mewnol ac arbenigol yn Ysbyty Athrofaol y Faenor (Y Faenor) yn cefnogi'r dalgylch cyfan.

Dyma rai o'r cyfarpar sydd yn yr Adran Radioleg yn y Faenor:

- Sganwyr tomograffeg gyfrifiadurol
- Unedau fflworosgopeg
- Unedau uwchsonig a deintyddol
- Sganwyr atseiniol magnetig
- Unedau ymyriadol a chardiaidd neilltuedig

Mae'r adran yn cyflogi nifer o staff, gan gynnwys radiograffwyr, radiograffydd uwch-ymarfer, radiolegwyr ymgynghorol a chofrestrwyr arbenigol, ynghyd â staff nyrsio a chlerigol.

Mae'r adran hefyd yn cael cyngor a chymorth gan bedwar arbenigwr ffiseg feddygol,¹ a ddarperir trwy gytundeb lefel gwasanaeth rhwng y bwrdd iechyd a'r Gwasanaeth Amddiffyn rhag Ymbelydredd yng Nghaerdydd.

¹ Mae arbenigwr ffiseg feddygol yn unigolyn sydd â gwybodaeth, hyfforddiant a phrofiad i weithredu neu roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â ffiseg ymbelydredd sy'n berthnasol i achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ym maes radioleg ddiagnostig, meddygaeth niwclear a radiotherapi, y mae awdurdod cymwys yn cydnabod ei gymhwysedd yn hyn o beth. Mae Rhŷŷ(CM) yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cyflogwr sy'n gyfrifol am achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol benodi arbenigwr ffiseg feddygol addas.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Yn gyffredinol, cafwyd adborth cadarnhaol gan y cleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a chanfuom fod staff yn trin cleifion mewn modd caredig, parchus a phroffesiynol.

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau digonol ar waith i helpu'r staff i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion sy'n mynychu'r adran, gyda chynlluniau i wella'r trefniadau hyn ymhellach yn y dyfodol agos.

Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod dulliau yn cael eu gweithredu i gasglu adborth y cleifion yn rheolaidd a sicrhau bod trefniadau ar waith i rannu'r canlyniadau a hysbysu'r cleifion a'r staff am y camau a gymerwyd o ganlyniad i adborth y cleifion.

Fel rhan o'r broses arolygu, gwnaeth AGIC gyflwyno arolygon ar-lein a phapur i gael barn y cleifion ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr adran. Mewn cyfanswm, derbyniwyd 37 o ymatebion.

Gofynnwyd i gleifion yn yr arolwg raddio'r profiad cyffredinol a ddarperir iddynt gan y gwasanaeth. Ac eithrio un ymateb, gwnaeth pob claf a ymatebodd raddio'r gwasanaeth fel 'da iawn' neu 'dda'. Dywedodd y cleifion y canlynol wrthym:

"Mae'r staff yn garedig iawn ac yn dangos cwrteisi"

"Staff cyfeillgar a chymdeithasol a helpodd lawer i wneud i chi deimlo'n llai nerfus. Yr unig beth sydd ei angen arnoch!"

Cadw'n iach

Roedd posteri gwybodaeth yn cael eu harddangos yn ystafelloedd aros yr adran. Roedd y rhain yn cynnwys manylion am fuddion a risgiau'r cysylltiadau meddygol sy'n cael eu cynnal i oedolion a phlant. Yn ogystal, roedd posteri yn cael eu harddangos drwy'r adran yn cynghori cleifion o bwysigrwydd rhoi gwybod i staff os oedd tebygrwydd y gallent fod yn feichiog. Mae hyn yn bwysig i atal niwed posibl i faban heb ei eni ac mae'n ofynnol o dan RhŶI(CM).

Yn gyffredinol, gwnaethom nodi bod gwybodaeth gyfyngedig i'r cleifion mewn perthynas â chynghor a chymorth gofal iechyd cyffredinol. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu gwybodaeth bellach am bynciau megis ffyrdd iach o fyw, rhoi'r gorau i ysmegu, cymorth alcohol a chyffuriau, a chymorth iechyd meddwl.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu gwybodaeth ychwanegol am gyngor a chymorth gofal iechyd cyffredinol yn yr adran.

Gofal ag urddas

Yn ystod ein hamser yn yr adran, gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd cwrtais, sensitif a phroffesiynol.

Ni chlywsom unrhyw sgysiau sensitif a gynhaliwyd yn yr adran yn ystod ein hymweliad. Gwelsom y cleifion yn cael eu symud i ystafelloedd triniaeth a oedd ar gael ar gyfer sgysiau preifat pan oedd angen. Roedd drysau i'r ystafelloedd pelydr-X yn cael eu cau pan oedd gweithdrefnau neu ymgynghoriadau yn cael eu cynnal. O'r 36 claf a ymatebodd i'r cwestiwn ar ein harolwg, dywedodd 33 eu bod yn teimlo eu bod wedi gallu siarad â'r staff am eu gweithdrefn heb gael eu clywed gan bobl eraill.

Roedd ystafelloedd ar gael yn yr adran i alluogi'r cleifion i newid eu dillad yn breifat, cyn eu harchwiliad, os oedd angen. Er na welsom gleifion yn cael eu harchwilio, gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn modd cyfeillgar. Ac eithrio un claf, dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol ar ein harolwg eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff, a chadarnhaodd pob claf eu bod wedi gallu cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas eu hunain yn ystod eu hapwyntiadau.

Gwybodaeth i gleifion

Fel y nodwyd yn flaenorol, gwelsom bosteri yn cael eu harddangos yn yr adran, a oedd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch buddion a risgiau'r cysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio sy'n rhan o'r archwiliadau a gynhelir.

Eglurodd yr uwch-reolwyr nad yw sgysiau ynglŷn â'r buddion a risgiau'n ymarferol mewn rhai achosion, yn sgil yr ystod o gleifion sy'n cael eu delweddu yn yr adran a chymhlethdod eu cyflyrau. Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â rhoi arweiniad ar gyfer hysbysu cleifion am fuddion a risgiau'r cysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio cyn eu harchwiliad. Wrth adolygu'r ddogfen hon, pwysleisiwyd y byddai'r cynnwys yn elwa ar fanylion pellach ynghylch achosion pan efallai na fyddai'n ymarferol i'r staff gael sgwrs â'r claf ynghylch buddion a risgiau cysylltiad – er enghraifft, pan allai'r claf fod â heriau gwybyddol neu drawma a gallai fod lefelau llai o ymwybyddiaeth.

Ac eithrio un, nododd yr holl gleifion a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol ar ein harolwg eu bod yn teimlo eu bod yn cymryd rhan cymaint ag yr oeddent am fod mewn penderfyniadau a wnaed ynghylch eu triniaeth. Yn ogystal, cadarnhaodd 34 allan o'r 37 claf eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir i ddeall buddion a risgiau eu harchwiliad cyn eu cysylltiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â darparu gwybodaeth am fuddion a risgiau i'r cleifion yn cael ei diweddarau i roi manylion am yr achlysuron pan na allai fod yn ymarferol i staff gael y trafodaethau hyn â'r cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Ac eithrio un claf, cadarnhaodd yr holl gleifion a ymatebodd i'r cwestiwn ar ein harolwg eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt fynediad at wasanaethau cymorth cyfathrebu, os oes angen, i gynorthwyo unrhyw cleifion sy'n mynychu'r adran na allant gyfathrebu ar lafar yn Saesneg. Cawsom wybod hefyd bod staff sy'n gweithio yn yr adran sy'n gallu cyfathrebu mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg.

Ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad, pwysleisiwyd nad oedd unrhyw hysbysiadau wedi'u harddangos yn yr adran yn cynghori'r cleifion y gallent siarad â'r staff yn Gymraeg, pe baent yn dymuno gwneud hynny. Trafodwyd y mater gydag uwch-reolwyr ac roeddem yn falch o weld fod arwyddion newydd wedi'u harddangos y

diwrnod canlynol. Mae hyn yn galluogi'r gwasanaeth i helpu i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol'.² Cadarnhaodd yr holl gleifion a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn gallu siarad â'r staff yn yr iaith o'u dewis.

Roedd yr arwyddion a'r rhan fwyaf o'r posterï trwy gydol yr adran ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Ac eithrio un, cadarnhaodd yr holl gleifion fod gwybodaeth ar gael iddynt yn eu hiaith ddewisol.

Nid oedd unrhyw ddolen glyw ar gael yn yr adran i gynorthwyo pobl sy'n gwisgo cymhorthion clyw i gyfathrebu â'r staff. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod cynlluniau i brynu un. Yn ogystal, cawsom wybod bod nifer o'r staff sy'n gweithio yn yr adran wedi mynegi diddordeb mewn dysgu iaith Arwyddion Prydain er mwyn eu cynorthwyo i gyfathrebu â'r unigolion sydd naill ai yn fyddar neu sydd â nam ar eu clyw.

Gofal amserol

Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i'r cwestiwn ar ein harolwg ei fod yn "hawdd iawn" neu'n "weddol hawdd" dod o hyd i'w ffordd i'r adran.

Gan mai gwasanaeth i gleifion mewnol yn unig yw'r adran yn bennaf, dywedwyd wrthym fod cleifion ond yn cael eu symud i'r adran fel mater o drefn pan fydd y staff yn cadarnhau eu bod yn barod iddynt. Fodd bynnag, cadarnhaodd y staff, pe bai unrhyw oedi annisgwyl tra bo cleifion eisoes yn yr adran, y byddent yn cael gwybod ar unwaith. Yn ystod ein hamser yn yr adran, ni welsom unrhyw gleifion yn aros am gyfnodau sylweddol cyn cael eu symud i'r ystafell pelydr-X.

Gofal unigol

Gwrando a dysgu o adborth

Gwnaeth yr uwch-reolwyr y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r trefniadau sydd ar waith i ymateb i unrhyw bryderon ar lafar a godwyd gan y cleifion. Cawsom ein hysbysu bod ceisiadau'n cael eu gwneud, pan fo hynny'n bosibl, i geisio datrys y materion gyda'r claf yn gyflym ac yn effeithlon. Pan nad yw hyn yn bosibl, caiff y cleifion eu cyfeirio at broses pryderon y bwrdd iechyd. Roedd gwybodaeth

² Ystyr 'Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod yr un mor weladwy â'r Saesneg.

yn cael ei harddangos trwy gydol yr adran mewn perthynas â gweithdrefn gwynion a phryderon GIG Cymru, sef Gweithio i Wella.³

Cawsom wybod hefyd nad oedd unrhyw arolygon wedi'u cwblhau'n ddiweddar i goladu adborth y cleifion ar eu profiadau yn defnyddio'r adran. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod arolwg digidol wedi'i deilwra newydd wedi'i ddatblygu a bod cynlluniau i gynnal yr arolwg hwn bob chwarter.

Yn ôl yr ymatebion a dderbyniwyd trwy ein harolwg staff, nid oedd 13 allan o 16 yn gwybod neu "ddim yn gwybod" p'un a oedd diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu ar adborth cleifion a dderbyniwyd gan eu hadran, neu p'un a oedd adborth cleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau am newidiadau yn eu hadran. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i gasglu adborth cleifion yn rheolaidd. Yn ogystal â hyn, dylai unrhyw adborth a dderbyniwyd ac unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad gael eu rhannu â'r cleifion a'r staff sy'n gweithio yn yr adran.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i ddarparu staff a chleifion gyda diweddariadau rheolaidd ar yr adborth profiad cleifion a dderbyniwyd gan y gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerir.

³ 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Arddangosodd y dystiolaeth a ddarparwyd a thrafodaethau gyda'r staff fod cydymffurfedd cyffredinol â RhYŷ(CM) 2017 yn dda. Roedd gan y staff ymwybyddiaeth ddigonol o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deliad dyletswydd.

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau priodol wedi'u gweithredu gan y gwasanaeth i sicrhau bod modd atal heintiau a dihalogi'n effeithiol yn yr adran.

Roedd trafodaethau â staff trwy gydol ein harolygiad yn rhoi sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel. Fodd bynnag, amlygwyd rhai meysydd, gan gynnwys yr angen i adolygu'r broses ar gyfer atgyfeiriadau'r Adran Achosion Brys.

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Dyletswyddau'r cyflogwr

Adnabod cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol i staff ei dilyn i adnabod cleifion yn gywir cyn eu cysylltiad meddygol. Nod hyn yw sicrhau bod y claf cywir yn cael y cysylltiad cywir, yn unol â gofynion RhYŷ(CM) 2017. Roedd y weithdrefn yn nodi bod disgwyl i staff gadarnhau enw llawn, dyddiad geni a chyfeiriad cartref y claf. Mae'r dull hwn yn unol â chanllawiau cyrff proffesiynol cyfredol⁴ ar RhYŷ(CM).

⁴ https://www.rcr.ac.uk/system/files/publication/field_publication_files/irmer-implications-for-clinical-practice-in-diagnostic-imaging-interventional-radiology-and-nuclear-medicine.pdf

Mae'r wybodaeth a nodir yn y weithdrefn hefyd yn amlinellu'r camau y dylai staff eu cymryd os ydynt yn dod ar draws gwahanol fathau o gleifion, gan gynnwys unigolion â diffyg galluedd, cleifion pediatrig, unigolion â nam ar eu synhwyrâu, megis nam ar y clyw neu'r golwg, ac unigolion sy'n methu cyfathrebu yn y Saesneg.

Fel rhan o'r arolygiad, gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion cyfredol ac ôl-weithredol. Roedd pob cofnod a adolygwyd yn rhoi tystiolaeth fod gwiriadau adnabod cleifion wedi cael eu cynnal gan y staff yn unol â'r weithdrefn ysgrifenedig. Yn ychwanegol, cadarnhaodd pob claf a atebodd y cwestiwn ar ein harolwg y gofynnwyd iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn cynnal eu gweithdrefn.

Unigolion sydd â'r gallu i gael plant (ymholiadau yn ymwneud â beichiogrwydd)

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â'r broses ar gyfer nodi a oedd unigolyn a oedd o fewn oedran i gael plentyn yn feichiog, neu gallai fod yn feichiog, a hynny cyn cael unrhyw gysylltiadau. Nod hyn oedd sicrhau bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn modd safonol a chyson.

Roedd y weithdrefn yn nodi'r broses y dylai staff ei dilyn yn dibynnu ar ymatebion yr unigolyn. Roedd y manylion yn cynnwys ystod oedran yr unigolion y dylid eu gofyn am feichiogrwydd, a oedd rhwng 12 oed a 55 oed, a hefyd yr ardal a fyddai'n destun cysylltiad yr oedd angen gofyn amdani, a oedd rhwng y llengig a'r pengliniau. Roedd hyn yn bwysig er mwyn lleihau'r niwed posibl i blentyn heb ei eni o gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio.

Darparwyd tystiolaeth o siart lif adrannol ar gyfer ymholi am feichiogrwydd. Roedd y ddogfen hon hefyd yn amlinellu'r camau perthnasol y dylid staff eu cymryd, yn dibynnu ar yr ymatebion gan y claf.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd posteri yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r adran yn cynghori cleifion o bwysigrwydd rhoi gwybod i staff os oedd tebygrwydd y gallent fod yn feichiog.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r ymholiadau yn ymwneud â beichiogrwydd, a oedd yn unol â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr a ddisgrifir uchod. Fodd bynnag, nid oedd dau o'r cofnodion cleifion a adolygwyd fel rhan o'n harolygiad, ar gyfer unigolion y dylid fod wedi gofyn iddynt am eu statws beichiogrwydd, yn rhoi tystiolaeth fod yr ymholiad wedi'i gynnal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau ymholiadau beichiogrwydd yn rheolaidd, pan fo angen, a bod cofnodion cleifion yn cael eu diweddarau'n gyson i arddangos bod ymholiad wedi'i gwblhau.

Achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol

Roedd gweithdrefn cyflogwr gyfredol ar waith a oedd yn amlinellu nad oedd unrhyw gysylltiadau anfeddygol⁵ yn cael eu cynnal yn y bwrdd iechyd.

Canllawiau atgyfeirio

Roedd yna ganllawiau atgyfeirio sefydledig ar waith a disgrifiwyd trefniadau digonol ar gyfer gwneud y rhain ar gael i unigolion â'r hawl i atgyfeirio cleifion at yr adran. Mae'r canllawiau atgyfeirio a ddefnyddir yn seiliedig ar yr wythfed argraffiad o gyhoeddiad iRefer Coleg Brenhinol y Radiolegwyr.⁶

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod gwybodaeth ymwybyddiaeth atgyfeiriadau'n cael ei darparu i'r holl staff meddygol yn ystod eu cyfnod sefydlu ac yn eu llythyrau hawl. Cawsom wybod hefyd y gellir cael mynediad at iRefer trwy dudalen fewnwyd y bwrdd iechyd a gellid ei gyrchu gan ddefnyddio unrhyw gyfrifiadur y bwrdd iechyd.

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig cyflogwr ar waith yn amlinellu'r broses atgyfeirio i'r staff ei dilyn. Mae'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon yn amlinellu bod yn rhaid cyflwyno atgyfeiriadau yn unol â'r canllawiau penodol. Roedd y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer pob atgyfeiriad yn cynnwys demograffeg lawn y claf, gan gynnwys enw, cyfeiriad a dyddiad geni, hanes clinigol priodol, a datganiad o'r archwiliad y gofynnir amdano.

Gellir cyflwyno atgyfeiriadau at yr adran yn electronig ac wedi'u hysgrifennu â llaw. Ar ôl derbyn atgyfeiriad electronig, mae'n cael ei argraffu a'i brosesu ar System Gwybodaeth Radioleg Cymru (WRIS). Gwneir atgyfeiriadau electronig i gleifion mewnol trwy'r porth gweithfan clinigol, ond cyflwynir atgyfeiriadau gan yr

⁵ Mae achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol yn cynnwys y rhai ar gyfer asesu iechyd at ddibenion cyflogaeth, dibenion mewnffido a dibenion yswiriant. Gellir cyflawni'r rhain hefyd i nodi gwrthrychau cudd yn y corff.

⁶ <https://www.rcr.ac.uk/clinical-radiology/being-consultant/rcr-referral-guidelines/about-irefer>

Adran Achosion Brys gyfagos ar gyfer delweddu diagnostig trwy system gyfrifiadurol sy'n benodol i'r Adran Achosion Brys (Symphony).⁷

O fewn y flwyddyn ddiwethaf, adroddwyd dau hysbysiad i AGIC a sawl digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd ar ôl digwyddiadau a oedd yn cynnwys cleifion anghywir yn cael eu hatgyfeirio o'r Adran Achosion Brys gyfagos am archwiliad pelydr-X. Gwnaeth y ddau glaf wedyn dderbyn cysylltiadau ag ymbelydredd nad oedd eu hangen arnynt. O ganlyniad i'r digwyddiadau hyn, mae'r Adran Radioleg wedi cychwyn prosesau ychwanegol i'r broses atgyfeirio o'r Adran Achosion Brys mewn ymgais i liniaru'r nifer o ddigwyddiadau ymbelydredd hysbysadwy sy'n ymwneud â chleifion anghywir. Yn dilyn atgyfeiriad electronig o'r Adran Achosion Brys, mae bellach angen i'r meddyg sy'n atgyfeirio ddilyn yr atgyfeiriad gyda galwad ffôn i'r adran o fewn 20 munud i'w drafod. Os na wneir y galwad hwn, ni fydd yr archwiliad y gofynnwyd amdano yn cael ei gynnal hyd nes y gall yr adran gadarnhau fod yr atgyfeiriad ar gyfer y claf cywir.

Trafodwyd y trefniant hwn gyda'r rheolwyr adrannol a chawsom wybod bod y broses atgyfeirio ddiwygiedig wedi cael effaith gadarnhaol hyd yn hyn, er mwyn lliniaru'r risg barhaus. Mae wedi bod nifer o ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd wedi'u nodi gan y staff sy'n gweithio yn yr adran, lle mae achosion damweiniol pellach o gysylltiadau ag ymbelydredd wedi'u hatal. Fodd bynnag, amlygwyd pryderon pellach yn ystod ein harolygiad o risgiau posibl o atgyfeiriadau dyblyg yn cael eu cyflwyno i'r adran, yn dilyn unrhyw newidiadau i'r atgyfeiriad gwreiddiol a gyflwynwyd trwy system Symphony yr Adran Achosion Brys.

Rydym yn cydnabod bod yr Adran Radioleg wedi gweithredu camau yn y broses atgyfeirio o'r Adran Achosion Brys ac yn cymeradwyo diwydrwydd dyladwy staff yr adran wrth nodi'r nifer sylweddol o ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn ystod y misoedd diwethaf. Fodd bynnag, gan ystyried y pryderon a amlygwyd a'r risg barhaus, mae'r rhaid i'r cyflogwr roi sicrwydd y caiff y mater hwn ei adolygu, er mwyn sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu gweithredu i liniaru'r risg o unrhyw achosion damweiniol pellach o gysylltiadau ag ymbelydredd, neu achosion anfwriadol, ac i leddfu baich ychwanegol y broses wirio atodol i'r staff yn y ddwy adran. Gallai hyn gynnwys adolygiad o hyfforddiant ar system atgyfeirio'r Adran Achosion Brys hefyd, os yw'n briodol.

⁷ <https://www.emishealth.com/products/symphony/>

Pwysleisiwyd mater ychwanegol yn dilyn ein hadolygiad o sampl o gofnodion atgyfeiriadau cleifion. Ar yr achlysuron lle oedd y cleifion yn cael eu hatgyfeirio i'r adran o'r theatr, roedd y dogfennau'n cael eu cwblhau â llaw gan radiograffydd. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd yr atgyfeiriwr a'r ymarferydd sy'n cyfiawnhau'r cysylltiad ag ymbelydredd drwy'r amser yn cael eu cofnodi ar y ddogfen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r cyflogwr roi sicrwydd i AGIC y caiff system atgyfeirio'r Adran Achosion Brys ei hadolygu i sicrhau bod camau a mesurau lliniaru angenrheidiol wedi'u gweithredu i atal achosion damweiniol ac anfwriadol pellach o gysylltiad ag ymbelydredd.

Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl atgyfeiriadau theatr yn rhoi manylion yr atgyfeiriwr a'r ymarferydd ar gyfer y cysylltiad ag ymbelydredd y gofynnwyd amdano.

Dyletswyddau ymarferydd, gweithredwr ac atgyfeiriwr

Roedd gan y cyflogwr system ar waith i nodi gwahanol rolau RhYŷ(CM) y gweithwyr proffesiynol a oedd yn rhan o'r gwaith atgyfeirio a chyfiawnhau⁸ a'r gwaith o ddarparu cysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil radiotherapi i gleifion. Roedd polisi'r bwrdd iechyd ar ddiogelwch ymbelydredd ïoneiddio yn nodi'r

⁸ Cyfiawnhau yw'r broses o bwysu a mesur buddion disgwylidig cysylltiad ag ymbelydredd yn erbyn yr niwed posibl o ddos cysylltiedig y cysylltiad ag ymbelydredd.

rolaua chyfrifoldebau penodol yn unol â RhYŷ(CM), sef atgyfeiriwr,⁹ ymarferydd¹⁰ a gweithredwr¹¹ (y gelwir yn ddeiliaid dyletswydd).

Roedd y polisi yn cynnwys rhai manylion ynghylch y gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir rhoi hawl ffurfiol i unigolyn fod yn ddeiliad dyletswydd, ynghyd â gofynion hyfforddiant ar gyfer rolau deiliaid dyletswydd sydd newydd eu penodi. Fodd bynnag, amlygwyd bod gofyn am fanylion pellach i sicrhau bod y ddogfen yn amlinellu'n benodol y gofynion hyfforddi a'r cymwysterau proffesiynol ar gyfer cael hawliau deiliad dyletswydd penodol. Er enghraifft, byddai cymrodoriaeth Coleg Brenhinol y Radiolegwyr a chofrestriad y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn dystiolaeth addas i gael hawl fel ymarferydd RhYŷ(CM). Cafodd y mater hwn ei amlygu yn yr adroddiad RhYŷ(CM) a gwblhawyd yn yr Adran Meddygaeth Niwclear yn Ysbyty Brenhinol Gwent ym mis Chwefror 2021.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod y polisi wedi'i ddiweddarau yn dilyn yr arolygiad blaenorol, ond, yn dilyn trafodaeth ac eglurder pellach ynghylch y manylion ychwanegol sydd eu hangen, cytunwyd bod angen i'r ddogfen gael ei diweddarau i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r gofynion deiliaid dyletswydd y cytunwyd arnynt ar gyfer y bwrdd iechyd.

Fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom adolygu sampl o gofnodion hyfforddi, cymhwysedd a hawl deiliaid dyletswydd. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion a adolygwyd yn glir ac yn gynhwysfawr. Yn ogystal, roedd systemau ar waith i fonitro cydymffurfedd â hyfforddiant. Yn gyffredinol, roedd y staff y gwnaethom

⁹ O dan RhYŷ(CM), mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion i ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol.

¹⁰ O dan RhYŷ(CM), mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gymryd cyfrifoldeb am achos unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol. Cyfiawnhau achosion o gysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol yw prif swyddogaeth yr ymarferydd.

¹¹ O dan RhYŷ(CM), mae gweithredwr yn unrhyw unigolyn sydd â hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar gynnal achos o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol.

siarad â nhw fel rhan o'n harolygiad yn arddangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddigonol o'u rolau deiliad dyletswydd o dan RhYI(CM) 2017.

Disgrifiodd yr uwch-reolwyr y trefniadau ar gyfer hysbysu staff o unrhyw newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau sydd ar waith. Yn dilyn unrhyw ddiwygiadau, mae'r ddogfen wedi'i diweddarau yn cael ei rhannu gyda staff perthnasol trwy hysbysiad e-bost a thrwy gynnal sesiwn frifio i'r staff. Wedyn, mae'n rhaid i'r staff lofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y ddogfen. Cawsom ein hysbysu bod unrhyw newidiadau yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd staff cyn eu gweithredu. Cadarnhaodd staff yr adran y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu cael mynediad at gopi caled a fersiynau electronig o'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith pan fydd angen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio yn cael ei ddiweddarau i gynnwys gofynion hyfforddiant a chymwysterau proffesiynol penodol ar gyfer rolau deiliaid dyletswydd penodol.

Cyfiawnhad ar gyfer achosion unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau meddygol a gynhelir yn yr adran. Roedd y weithdrefn hon yn amlinellu'r camau gofynnol y mae'n rhaid eu cymryd gan y staff i sicrhau bod yr holl archwiliadau sy'n cynnwys ymbelydredd Ïoneiddio yn cael eu cyfiawnhau cyn i'r weithdrefn gael ei chynnal. Yn gyffredinol, roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn arddangos cydymffurfedd â RhYI(CM) 2017. Yn ogystal, roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'r broses gyfiawnhau a'r broses awdurdodi i'w dilyn. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn flaenorol, nodwyd materion mewn rhain o'r atgyfeiriadau theatr a adolygwyd lle nad oedd yr ymarferydd a oedd yn cyfiawnhau'r cysylltiad ag ymbelydredd wedi'i gofnodi.

Ar gyfer yr achlysuron lle nad yw'n ymarferol i ymarferydd awdurdodi cysylltiadau ag ymbelydredd, mae canllawiau awdurdodiad dirprwyedig wedi'u cyflwyno ar gyfer nifer o archwiliadau tomograffeg gyfrifiadurol er mwyn galluogi i weithredwyr sydd â hawl i weithredu o dan y canllawiau awdurdodiad dirprwyedig awdurdodi'r cysylltiad ag ymbelydredd. Wedyn, gall y gweithredwr â hawl awdurdodi'r cysylltiad ag ymbelydredd trwy lofnodi'r ffurflen atgyfeirio yn dilyn y canllawiau awdurdodiad dirprwyedig.

Mae hefyd yn rhaid cyfiawnhau unrhyw gysylltiadau ag ymbelydredd a geir gan ofalwyr a chysurwyr. Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith a oedd yn amlinellu'r

broses i'w dilyn gan y staff mewn perthynas ag unrhyw gysylltiadau posibl ag ymbelydredd ar gyfer gofalwyr a chysurwyr. Roedd hyn yn cynnwys rhoi digon o wybodaeth i'r unigolyn ynghylch y buddion a'r risgiau, er mwyn sicrhau ei fod yn cymryd rhan o'i wirfodd ac yn fodlon gwneud hynny. Os ystyrir bod yr unigolyn â'r gallu i gael plant, mae hefyd yn rhaid cynnal ymholiad beichiogrwydd.

Yn dilyn cynnwys unigolyn fel gofalwr neu gysurwr mewn cysylltiad ag ymbelydredd, mae'n rhaid gwneud cofnod yn y cofnod cadw cofnodion gofalwyr a chysurwyr. Roedd y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y ddogfen hon yn cynnwys y canlynol: enw'r unigolyn a'i berthynas â'r claf, ei statws beichiogrwydd, enw'r ymarferydd sy'n cyfiawnhau'r cysylltiad posibl ag ymbelydredd, rhif y claf perthnasol, a dos yr archwiliad a'r claf.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod Everlight Radiology¹² yn gweithredu fel ymarferwyr ar gyfer cysylltiadau tomograffeg gyfrifiadurol y tu allan i oriau pan fydd angen. Mae hyn yn unol â'r contract sydd mewn grym rhwng pob bwrdd iechyd yng Nghymru ac Everlight. Cawsom wybod hefyd y bydd yr atgyfeiriwr yn cysylltu ag Everlight i geisio cyfiawnhad cyn i'r weithdrefn gael ei chynnal gan y gweithredwr os nad yw'r weithdrefn y tu allan i oriau y gofynnir amdani yn gallu cael ei hawdurdodi gan radiograffydd o dan y canllawiau awdurdodiad dirprwyedig priodol. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod y manylion perthnasol yn cael eu cofnodi ar y protocol y tu allan i oriau, a fydd yn cynnwys enw'r ymarferydd, ar ôl i'r cyfiawnhad gael ei roi.

Optimeiddio

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer optimeiddio¹³ cysylltiadau ag ymbelydredd. Er enghraifft, cawsom wybod bod gan bob gweithdrefn set o brotocolau safonol i staff eu dilyn a hefyd roedd siartiau cysylltiadau ar gael i bob uned radiograffeg, gyda chysylltiadau safonol i sicrhau bod dosau cysylltiadau y cleifion mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

Mae'r arbenigwyr ffiseg feddygol perthnasol yn rhoi cyngor yn rheolaidd ac yn cyfrannu ar y gwaith o optimeiddio'r achosion hyn o gysylltiadau ag ymbelydredd trwy'r timau optimeiddio delweddau. Mae'r arbenigwyr ffiseg feddygol yn cwblhau gwiriadau rheolaidd, gan gynnwys profion sicrhau ansawdd perfformiad cyfarpar

¹² Mae Everlight Radiology yn ddarparwr sylweddol o wasanaethau teleradioleg wedi'i leoli yn Llundain ac Awstralia.

¹³ Mae optimeiddio yn cyfeirio at y broses lle mae dosau unigol yn cael eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

ac archwiliadau o ddosau cleifion, a allai arwain at argymhellion i optimeiddio gweithdrefnau penodol. Gwneir hyn i sicrhau bod cysylltiadau ag ymbelydredd mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

Ar gyfer cleifion pediatrig, cawsom wybod y gellid dewis gosodiadau pediatrig penodol ar gyfarpar a bod y cysylltiadau hyn a osodir ymlaen llaw wedi cael eu hoptimeiddio. Yn ogystal, roedd hefyd canllawiau perthnasol, siartiau cysylltiad a phrotocolau penodol ar gael ar gyfer cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer cleifion sy'n oedolion a chleifion pediatrig yn yr adran.

Lefelau cyfeirio diagnostig

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith ar gyfer sefydlu ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig. Dywedwyd wrthym fod lefelau cyfeirio diagnostig yn cael eu sefydlu ar gylch tair blynedd yn dilyn adroddiadau archwilio dosau sy'n cael eu cwblhau gan arbenigwyr ffiseg feddygol y gwasanaeth. Mae adroddiadau archwilio yn cael eu cwblhau'n fwy aml pan fydd angen, ar ôl gosod unrhyw gyfarpar newydd neu unrhyw newidiadau i ymarfer clinigol.

Ar adeg ein harolygiad, roedd lefelau cyfeirio diagnostig lleol wedi'u sefydlu ar gyfer yr holl gyfarpar yn yr adran, ac eithrio delweddu ymyriadol. Fodd bynnag, cawsom wybod bod gwaith wrthi'n cael ei wneud i sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig lleol yn y dyfodol agos, pan fydd data digonol ar gael. Ar hyn o bryd, cawsom wybod bod lefelau cyfeirio diagnostig ymyriadol cenedlaethol yn cael eu defnyddio fel canllaw.

Roedd lefelau cyfeirio diagnostig sefydledig yn cael eu harddangos ym mhob ystafell driniaeth yr ymwelwyd â hi yn ystod ein harolygiad. Yn dilyn unrhyw newidiadau i'r lefelau cyfeirio diagnostig, cawsom wybod bod gwybodaeth yn yr ystafelloedd perthnasol yn cael ei diweddarau ac y rhoddir hysbysiadau i'r staff trwy neges e-bost a/neu mewn cyfarfodydd.

Roedd system ar waith i sicrhau bod gweithredwyr yn cofnodi achosion lle mae'r dos ar gyfer archwiliad ar glaf maint cyfartalog yn mynd y tu hwnt i'r lefelau cyfeirio diagnostig yn gyson heb eglurhad amlwg, megis maint y claf neu gymhlethdod yr archwiliad. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei choladu ar gofnod dosau'r adran berthnasol, sydd ar gael ym mhob ystafell. Wedyn, mae'r dogfennau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y goruchwyliwr amddiffyn rhag ymbelydredd perthnasol i nodi unrhyw lefelau cyfeirio diagnostig sy'n mynd y tu hwnt i'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol sefydledig a chynhelir archwiliadau pellach yn ôl y gofyn i bennu'r rheswm a'r camau sydd eu hangen.

Gwerthusiad clinigol

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith a oedd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer gwerthusiadau clinigol¹⁴ o weithdrefnau dod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol a gynhelir yn yr adran. Roedd y weithdrefn yn nodi bod yn rhaid i werthusiad clinigol gael ei gofnodi ar gyfer pob cysylltiad meddygol sy'n cael ei gwblhau. Fodd bynnag, roedd y ddogfen yn rhoi manylion bod delweddau ar gael i'r atgyfeiriwr heb gael eu hadrodd wedyn gan yr adran mewn nifer o achosion a reolir. Mae'r trefniadau hyn ond yn digwydd yn dilyn cytundebau rhwng y Cyfarwyddwr Clinigol Radioleg a chyfarwyddwr clinigol y gyfarwyddiaeth berthnasol. Cawsom wybod bod llythyrau cytundeb unigol ar gyfer pob grŵp o ddeiliaid dyletswydd ar gael sy'n amlinellu manylion penodol y cytundeb.

Cawsom wybod y gall gwerthusiadau clinigol fod yn adroddiadau ysgrifenedig ar System Gwybodaeth Radioleg Cymru (WRIS) a gynhyrchir yn yr Adran Radioleg gan weithredwyr â hawl, megis radiolegwyr, radiograffwyr neu weithredwyr trydydd parti (Everlight). Yn ogystal, gall y gwerthusiad clinigol fod yn werthusiad o'r cysylltiad ag ymbelydredd sydd wedi'i ysgrifennu yng nghofnod y claf gan yr ymarferydd meddygol sy'n atgyfeirio, neu unigolyn cymwysedig arall â hawl gweithredwr ar gyfer gwerthusiad clinigol gan y cyflogwr. Mae gweithdrefn y cyflogwr yn nodi y bydd y trefniadau adrodd hyn yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan yr Adran Radioleg er mwyn monitro cydymffurfedd â'r gofyniad bod gwerthusiadau clinigol y cytunwyd arnynt, na chofnodir ar WRIS, yn cael eu dogfennu yng nghofnodion y claf.

Amlygwyd bod gofyn am fwy o fanylion yng ngweithdrefn berthnasol y cyflogwr, er mwyn amlinellu'r trefniadau gwerthuso clinigol mewn perthynas ag ymgynghorwyr eraill yn y gyfarwyddiaeth a meddygon meddygol sydd â hawl gweithredwyr i berfformio gwerthusiadau clinigol. Disgrifiwyd y broses pan fydd gwerthusiad clinigol yn cael ei berfformio a'i gofnodi gan weithredwr â hawl y tu allan i'r Adran Radioleg yn y weithdrefn. Fodd bynnag, nid oedd yn glir sut roedd yr unigolion perthnasol wedi cael eu nodi a'u hysbysu o'u hawl a'u cwrdd ymarfer. Dylid cynnwys yr wybodaeth hon yng ngweithdrefn y cyflogwr, ynghyd â'r gofynion o ran hyfforddiant a chymhwysedd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn berthnasol y cyflogwr yn cael ei diweddarau i adlewyrchu manylion y trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer gwerthusiadau clinigol sy'n cael eu cwblhau gan y gweithredwyr hynny â hawl sy'n cynnal gwerthusiadau clinigol y tu allan i'r Adran Radioleg.

¹⁴ Mae gwerthusiadau clinigol yn bwysig i helpu i lywio cam nesaf gofal a thriniaeth claf.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Roedd gan y cyflogwr stocrestr o'r cyfarpar yn yr adran. Roedd y stocrestr yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan RhYI(CM) 2017, gan gynnwys enw a rhif model y cyfarpar, blwyddyn cynhyrchu a blwyddyn gosod. Fodd bynnag, amlygwyd nad oedd dyddiad adolygu gan y ddogfen stocrestr.

Roedd polisi'r bwrdd iechyd ar waith mewn perthynas â sicrhau ansawdd cyfarpar yn yr Adran Radioleg ar draws y bwrdd iechyd cyfan. Roedd y ddogfen hon yn amlinellu'r gofynion ar gyfer cyfarpar, gan gynnwys canllawiau a chyfrifoldebau ynghylch gwaith cynnal a chadw, prynu, hyfforddiant, a phrofi cyfarpar. Roedd y ddogfen yn glir ac yn gynhwysfawr, ond amlygwyd nad oedd yr holl gyfarpar perthnasol sydd ar gael yn y Faenor wedi'i gynnwys, er bod rhai cyfarpar wedi'i nodi yn y polisi. Dylai'r cyflogwr ystyried diweddarau'r ddogfen yn unol â hynny.

Yn ogystal, roedd gweithdrefn cyflogwr ar gyfer rhaglenni sicrhau ansawdd sy'n ymwneud â dogfennau ysgrifenedig a chyfarpar i'r staff ei dilyn. Fodd bynnag, amlygwyd bod y dyddiad adolygu ar gyfer y ddogfen hon wedi mynd heibio. Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y ddogfen hon yn cael ei hadolygu a'i diweddarau. Dylai'r wybodaeth sy'n ymwneud â chyfarpar gael ei diweddarau i gynnwys dolenni i'r polisi cysylltiedig a chynnwys manylion perthnasol sy'n adlewyrchu pwyntiau i'w cynnwys o ganllawiau'r corff proffesiynol ar RhYI(CM).

Darparwyd tystiolaeth i arddangos bod rhaglen sicrhau ansawdd cyfarpar a rhaglen rheoli ansawdd sefydledig ar waith ar gyfer yr adran. Roedd y rhain wedi'u datblygu gyda chynghor a chymorth arbenigwyr ffiseg feddygol. Roedd y dystiolaeth ar gael yn dangos bod gwiriadau rheoli ansawdd ar gyfer y cyfarpar yn gyfredol a bod camau gweithredu wedi'u cymryd pan oedd unrhyw faterion wedi cael eu hamlygu.

Yn ystod trafodaethau gyda'r uwch-reolwyr, cawsom wybod am ddarn newydd o gyfarpar delweddu diagnostig a oedd wedi'i brynu y tu allan i'r Adran Radioleg. Y cyfarpar oedd peiriant braich siâp C fach¹⁵ y cafodd ei brynu gan yr Adran Orthopedig yn yr ysbyty. Cawsom wybod bod y peiriant wedi'i brofi gan arbenigwr ffiseg feddygol y gwasanaeth, ond nid oedd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Codwyd ymholiadau gan yr uwch-reolwyr ynghylch y trefniadau llywodraethu ac amddiffyn rhag ymbelydredd ar gyfer y cyfarpar hwn, gan gynnwys eglurder

¹⁵ Peiriant pelydr- X yw braich siâp C fach sy'n sganio ardal benodol o'r corff, wrth ganiatáu i glinigwyr weld y canlyniadau mewn amser real, yn fyw ar sgrin y monitor yn ystod llawdriniaeth.

ynghylch yr hyfforddiant a hawl ofynnol i'r staff sy'n defnyddio'r cyfarpar a gwaith cynnal a chadw'r cyfarpar. Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y gofynion sy'n ymwneud â defnyddio'r cyfarpar pelydr-X hwn yn cydymffurfio â RhYŷ(CM) ac yn cael eu trafod a'u cytuno rhwng y ddwy adran.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod dyddiad adolygu'n cael ei ychwanegu i stocrestr y cyfarpar i sicrhau bod y cynnwys yn cael ei gadw'n gyfredol fel mater o drefn.

Dylai'r cyflogwr ystyried diweddarau polisi sicrhau ansawdd y bwrdd iechyd i adlewyrchu'r cyfarpar perthnasol sydd ar gael yn yr adran.

Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn cyflogwr sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd dogfennau a chyfarpar yn cael ei hadolygu a'i diweddarau.

Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau y rhoddir eglurder i'r uwch-staff perthnasol mewn perthynas â gofynion llywodraethu a RhYŷ(CM) / Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio ar gyfer cyfarpar fflworosgopeg braich siâp C fach yr Adran Orthopedig.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yr Adran Delweddu Diagnostig wedi rhannu dros ddwy lawr gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau'n cael eu darparu ar y llawr cyntaf, gyda gwasanaeth ymyriadol yn cael ei ddarparu o'r ail lawr. Roedd prif ardal yr adran ar y llawr cyntaf wedi'i lleoli yn gyfagos i'r Adran Achosion brys a'r Uned Asesu Meddygol. Roedd mynediad gwastad trwy gydol pob rhan o'r adran a welwyd, gan alluogi cleifion i gael eu trosglwyddo'n effeithlon mewn cadeiriau olwyn neu welyau, yn ogystal â galluogi cleifion ag anawsterau symudedd i fynd i mewn i'r adran, a'i gadael, yn ddiogel.

Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch staff, cleifion ac ymwelwyr. Er enghraifft, roedd arwyddion priodol a threfniadau mynediad cyfyngedig ar waith i atal pobl anawdurdodedig rhag dod i mewn i ardaloedd lle'r oedd cyfarpar radioleg yn cael ei ddefnyddio.

Yn gyffredinol, roedd yr adran yn ymddangos i fod wedi'i chynllunio'n dda, wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, ac mewn cyflwr da. Yn ystod ein hamser yn yr adran, ni nodwyd unrhyw beryglon mewn unrhyw un o'r ardaloedd y gwnaethom ymweld â nhw.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd trwy ein harolwg yn amlygu y dywedodd tri aelod o staff a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol na fyddent yn gwybod sut i adrodd ar ymarfer clinigol anniogel pe bai ganddynt bryder. Yn ogystal, dim ond saith allan o'r 13 o aelodau o staff a ymatebodd i'r cwestiwn ar ein harolwg a ddywedodd y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel.

Amlygodd ymatebion pellach a dderbyniwyd trwy ein harolwg y teimlodd 13 allan o 15 mai gofal y cleifion oedd blaenoriaeth uchaf y sefydliad, a dywedodd deg allan o'r 14 o aelodau o staff a fynegodd farn y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad pe bai'r gofal drostynt eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn cael gwybodaeth sy'n amlinellu'r camau gofynnol i adrodd ar unrhyw bryderon mewn perthynas ag ymarfer clinigol anniogel yn yr adran.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu sicrwydd bod dulliau ar waith i alluogi staff i godi pryderon yn ddiogel ynglŷn ag ymarfer clinigol anniogel ac i sicrhau bod pryderon a godir yn destun ymchwiliad ac yn cael sylw fel mater o drefn.

Atal a rheoli heintiau

Ar adeg ein harolygiad, roedd yr adran yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Gwnaeth gwybodaeth a ddarparwyd gan staff y gwnaethom siarad â nhw yn nodi bod trefniadau digonol ar waith ar gyfer cynnal gwaith atal heintiau a dihalogi effeithiol yn yr adran. Cawsom ein hysbysu bod y trefniadau hyn wedi cael eu cryfhau o ganlyniad i COVID-19.

Disgrifiodd y staff y trefniadau sydd ar waith, gan gynnwys sicrhau bod ardaloedd perthnasol yn cael eu glanhau yn rheolaidd ar ôl pob claf a chyflwyno cyfyngiadau ar nifer y bobl a ganiateir mewn ystafell ar unrhyw adeg. Cadarnhaodd yr holl staff a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn teimlo bod trefniadau dihalogi ar waith ar gyfer y cyfarpar a'r holl ardaloedd perthnasol. Yn ogystal, mewn perthynas â COVID-19, cytunodd bron pob aelod o staff a ymatebodd fod y sefydliad wedi gweithredu'r newidiadau amgylcheddol a newidiadau ymarfer angenrheidiol.

Wrth y brif fynedfa i'r adran, roedd sgriniau plastig clir wedi'u gosod ar ddesg y dderbynfwr er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion. Cyn mynd i mewn i'r adran, gofynnir ychydig o gwestiynau i'r holl staff ac ymwelwyr, gan gynnwys a ydynt wedi cael unrhyw symptomau COVID-19 neu wedi dod i gysylltiad ag unrhyw un â COVID-

19 yn ddiweddar. Cymerir tymheredd yr unigolyn hefyd a gofynnir iddynt gadarnhau pryd y cawsom nhw brawf llif unffordd ddiwethaf. Cawsom wybod bod gofyn i'r staff gael dau brawf llif unffordd bob wythnos. Mae'r wybodaeth a gesglir gan y derbynnydd yn cael ei chofnodi ar ffurflen safonol, y mae'n rhaid i'r unigolyn ei llofnodi wedyn cyn mynd i mewn i'r adran.

Fel yr amlygwyd yn flaenorol, mae'r adran yn ymdrin â chleifion mewnol yn bennaf, a fydd yn cael profion COVID-19 rheolaidd tra byddant yn yr ysbyty. Fodd bynnag, cawsom wybod, pan fydd cleifion allanol yn cael eu gweld, fod gofyn iddynt ateb cwestiynau tebyg a chymerir eu tymheredd cyn y gallant fynd i mewn i'r adran.

Roedd cyfleusterau ymolchi dwylo a bocys hylif diheintio dwylo ar gael trwy gydol yr adran. Roedd nifer y cadeiriau yn ystafelloedd aros yr adran wedi'u lleihau i alluogi cadw pellter cymdeithasol. Yn ogystal, mewn un o'r ystafelloedd aros, roedd sgriniau plastig clir wedi'u gosod rhwng pob cadair. Roedd modd glanhau'r holl gadeiriau sydd ar gael yn yr ystafelloedd aros â chlwytyn, er mwyn caniatáu am lanhau digonol.

Roedd arwyddion yn cael eu harddangos trwy gydol yr adran i atgoffa'r staff, y cleifion ac ymwelwyr o'r gofynion cadw pellter cymdeithasol.

Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i'r cwestiwn ar ein harolwg eu bod yn teimlo bod yr adran yn 'lân iawn' neu yn 'weddol lân'. Yn ogystal, dywedodd bron pob claf a ymatebodd fod gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â COVID-19 yn amlwg iawn yn ystod eu hamser yn yr adran.

Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant e-ddysgu atal a rheoli heintiau gorfodol. Roedd tystiolaeth a ddarparwyd fel rhan o'n harolygiad yn nodi bod 82% o'r staff sy'n gweithio yn yr adran yn gyfredol o ran yr hyfforddiant.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i sicrhau bod cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol ar gael o fewn yr adran i'r staff. Cawsom ein hysbysu hefyd fod y staff wedi derbyn hyfforddiant gwisgo a diosg,¹⁶ a'u bod wedi cael prawf ffitio ar gyfer cyfarpar diogelu personol. Nododd naw allan o'r 11 o staff a ymatebodd i'r cwestiwn ar ein harolwg eu bod yn teimlo bod cyfarpar diogelu personol digonol ar gael iddynt yn yr adran.

¹⁶ Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt unrhyw bryderon diogelu am unigolyn. Cawsom wybod bod tîm diogelu yn yr ysbyty sydd ar gael i ddarparu cyngor a chymorth yn ôl y gofyn. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod cyngor a chymorth yn cael eu harddangos trwy bosteri yn yr adran ac ar fewnrwyd y bwrdd iechyd.

Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd fel rhan o'n harolygiad yn nodi bod y ganran gydymffurfio â hyfforddiant ar gyfer Diogelu Oedolion Lefel 1 yn 87 y cant, ar gyfer Diogelu Oedolion Lefel 2 yn 60 y cant, ac ar gyfer Diogelu Plant yn 84 y cant. Rhoddir rhagor o sylw i'r mater hwn yn ein hadran ar y gweithlu.

Gofal effeithiol

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Archwiliadau clinigol

Roedd tystiolaeth ar gael o amserlen archwilio clinigol ar waith ac arddangosodd y wybodaeth a ddarparwyd fod canolbwynt amlddisgyblaethol da ar archwilio yn yr adran. Roedd tystiolaeth o archwiliad RhYŷ(CM) ar waith i sicrhau cydymffurfedd ac roedd hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd, gyda gwelliannau'n cael eu gwneud pan fydd angen. Darparwyd enghreifftiau o archwiliadau clinigol adrannol yn cael eu cwblhau fel tystiolaeth ac roedd y rhain yn berthnasol ac â manylion da.

Cawsom ein hysbysu gan yr uwch-reolwyr fod strategaeth archwilio'r gyfarwyddiaeth radioleg a rhaglen archwilio RhYŷ(CM) yr adran wrthi'n cael eu hadolygu. Cawsom wybod mai'r bwriad oedd datblygu proses fwy safonol ymhellach ar gyfer archwilio. Bydd hyn yn cynnwys neilltuo arweinwyr unigol i ymgymryd ag archwiliadau clinigol a RhYŷ(CM) perthnasol yn yr adran. Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y dogfennau perthnasol yn cael eu diweddarau i adlewyrchu arweinwyr cytunedig yr archwiliadau, ar ôl i'r penderfyniad hwn gael ei wneud.

Cawsom wybod nad oedd unrhyw arweinydd sicrhau ansawdd ar hyn o bryd i ddarparu dull cyson tuag at wella ansawdd ar draws y bwrdd iechyd. Roedd hyn yn golygu ei fod yn heriol i'r staff clinigol gwblhau tasgau ansawdd a chydymffurfedd pwysig, megis archwiliadau cydymffurfio â RhYŷ(CM), ynghyd â'u rolau clinigol. Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gan yr aelod(au) o staff arweiniol ar gyfer pob archwiliad ddigon o gapasiti ymgymryd â'r gofynion archwilio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y dogfennau perthnasol yn cael eu diweddarau i egluro'r unigolion sy'n gyfrifol am gwblhau archwiliadau yn yr amserlen archwilio adrannol.

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gan y staff perthnasol gapasiti digonol i ymgymryd â'u cyfrifoldebau clinigol a'u cyfrifoldebau archwilio o dan RhYI(CM).

Cyngor arbenigol

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd cytundeb lefel gwasanaeth ar waith rhwng y bwrdd iechyd a'r Gwasanaeth Amddiffyn rhag Ymbelydredd yng Nghaerdydd ar gyfer darparu goruchwyliaeth reolaidd, mewnbwn uniongyrchol, a chynghor a chymorth ad hoc arbenigwyr ffiseg feddygol i'r adran.

Cawsom wybod bod arbenigwyr ffiseg feddygol yn cymryd rhan yn agweddau ymarferol y gwasanaeth, gan gynnwys archwiliadau dos, sicrhau ansawdd perfformiad cyfarpar, optimeiddio, a dadansoddi cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol ag ymbelydredd. Cawsom wybod hefyd bod arbenigwyr ffiseg feddygol yn cymryd rhan ym mhob cyfarfod perthnasol sy'n ymwneud â chysylltiadau ag ymbelydredd, gan gynnwys timau optimeiddio delweddu.

Roedd tystiolaeth i arddangos yn glir bod rhyngweithio ac ymgysylltu da rhwng arbenigwyr ffiseg feddygol a'r adran. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu cysylltu ag arbenigwr ffiseg feddygol am gyngor a chymorth pan fydd angen.

Ymchwil feddygol

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith mewn perthynas â gweithdrefnau delweddu a gynhelir at ddibenion ymchwil feddygol. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr nad yw'r adran yn cymryd rhan mewn unrhyw ymchwil mewn perthynas â chysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cawsom wybod bod ymchwil feddygol yn cael ei chynnal mewn adrannau radioleg eraill yn y bwrdd iechyd. Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr yn cael ei diweddarau i nodi na chynhelir cysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil gwaith ymchwil yn yr Adran Radioleg yn y Faenor.

Yn ogystal, yn dilyn adolygiad o'r weithdrefn, amlygwyd y dylid cynnwys manylion pellach i ddisgrifio sut y byddai'r protocol ymchwil cywir yn cael ei nodi i bob

astudiaeth ymchwil a gynhelir, ynghyd â lle mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi a sut i'w chyrchu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas â chysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil gwaith ymchwil yn cael ei diweddarau i nodi na chynhelir y cysylltiadau hyn ag ymbelydredd yn yr adran yn y Faenor.

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas â cysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil gwaith ymchwil yn cael ei diweddarau i gynnwys manylion ar sut y caiff y protocol archwilio cywir i bob rhaglen ymchwil ei nodi, lle mae'n cael ei nodi, a sut i gyrchu'r wybodaeth hon.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd strwythur sefydliadol ar waith ar gyfer yr Adran Radioleg gyffredinol, gyda llinellau adrodd clir.

Yn gyffredinol, roedd yr adborth gan y staff yn nodi eu bod yn hapus gyda lefel y cymorth ac ymgysylltiad gan eu rheolwr llinell uniongyrchol a chan uwch-reolwyr yn y gwasanaeth.

Roedd systemau ar waith i fonitro hyfforddiant gorfodol ac adolygiadau datblygu arfarniadau personol yn rheolaidd, ac roedd lefelau cydymffurfio cyffredinol yn yr adran yn dda.

Roedd gweithdrefnau, polisïau a phrotocolau'r cyflogwr a ddarparwyd fel tystiolaeth yn fanwl iawn. Fodd bynnag, amlygwyd rhai problemau, gan gynnwys y gofyniad i sicrhau bod gweithdrefnau ysgrifenedig yn adlewyrchu'r ymarfer cytunedig.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd strwythur cyfarwyddiaeth radioleg ar waith ar gyfer y bwrdd iechyd, a oedd yn amlinellu'r llinellau adrodd clir yn y gwasanaeth Roedd hefyd strwythur llywodraethu radioleg ar waith a oedd yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu o'r adrannau radioleg perthnasol hyd at y bwrdd gweithredol yn y bwrdd iechyd.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i sicrhau bod ymgysylltiad rheolaidd â staff yr adran, gan gynnwys trwy gyfarfodydd staff a negeseuon e-bost. Cawsom wybod hefyd bod cylchlythyrau'r adran wedi cael eu dosbarthu yn y gorffennol i roi diweddariadau perthnasol i'r staff, ond daeth yr arfer hwn i ben yn sgil pwysau staffio yn ystod y pandemig COVID-19. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod bwriad i ailgyflwyno'r cylchlythyr, i'w gyhoeddi bob chwarter yn 2022.

Dywedwyd wrthym yr ymdrechir i sicrhau bod yr uwch-reolwyr yn mynychu pob safle yn rheolaidd i roi'r cyfle i staff yr adran godi unrhyw ymholiadau neu

bryderon â nhw. Nododd yr ymatebion a dderbyniwyd trwy ein harolwg fod 60 y cant o'r staff yn teimlo bod cyfathrebu gan yr uwch-reolwyr yn effeithiol.

Rhoddodd ymatebion pellach i'n harolwg fanylion fod 86 y cant o'r staff a ymatebodd naill ai'n teimlo bod yr uwch-reolwyr "drwy'r amser" neu "weithiau" yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig ac yn gweithredu ar adborth y staff.

Cyn ein harolygiad, roedd AGIC yn gofyn i uwch-aelodau o staff yn yr adran gwblhau holiadur hunanasesu a'i gyflwyno. Roedd hyn er mwyn rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr, mewn perthynas â RhYŷ(CM) 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Dychwelwyd y ffurflen hunanasesu wedi'i chwblhau i AGIC o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Yn gyffredinol, cafodd y ddogfen ei chwblhau i safon uchel. Pan oedd angen eglurder ychwanegol ynghylch rhai o'r ymatebion, darparodd yr uwch-aelodau o staff y wybodaeth ychwanegol yn brydlon.

Ar ddyddiau ein harolygiad, sicrhodd uwch-reolwyr ymhlith y staff eu bod ar gael a gwnaethant hwyluso'r broses arolygu. Roeddent yn derbyn ein hadborth a gwnaethant arddangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r materion a amlygwyd.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Hawlogaeth

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith mewn perthynas â'r broses ar gyfer rhoi hawl o dan RhYŷ(CM) 2017. Roedd hefyd ddogfen Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio, sy'n nodi bod gan Gyfarwyddwr Meddygol y bwrdd iechyd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd yr hawl i ddirprwyo'r dasg o roi hawl i ddeiliaid dyletswydd ar gyfer swyddogaethau penodol o dan RhYŷ(CM) 2017. Roedd siart lif hawl ar gael, a oedd yn dangos y broses rhoi hawl yn glir ar gyfer y gwasanaeth.

Mae'r Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio hefyd yn diffinio Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn glir fel y cyflogwr o dan RhYŷ(CM). Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi bod y Prif Weithredwr wedi dirprwyo'r dasg o roi hawl RhYŷ(CM) trwy'r Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd i lawr i unigolion priodol a bod hyn wedi'i nodi mewn llwybrau sydd wedi'u diffinio'n glir. Byddai cynnwys dolen yng ngweithdrefn y cyflogwr i Adran 5 (Deiliaid Dyletswydd) ac Adran 6 (Trefniadau ar gyfer Cydymffurfio â RhYŷ(CM) 2017) o'r Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio yn

cyfuno'r holl wybodaeth am rolau deiliaid dyletswydd RhYŷ(CM) ac am waith dirprwyo a rhoi hawl.

Gwelwyd tystiolaeth o fatrics hawl ar gyfer y staff sy'n gweithio yn yr adran. Darparodd y ddogfen hon y lefel ofynnol o fanylion ac roedd yn amlinellu'n benodol y tasgau sydd gan unigolion yr hawl i'w gwneud.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd cofnodion hyfforddiant, cymhwysedd a hawliau deiliaid dyletswydd yn glir ac yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, amlygwyd bod angen diweddaru'r dogfennau perthnasol i sicrhau eu bod yn nodi'n glir ofynion hyfforddiant a chymhwysedd deiliaid dyletswydd ar gyfer pob rôl deiliad dyletswydd. Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y dogfennau mewn perthynas â rhoi hawl yn cael eu diweddaru i amlinellu'n benodol y gofynion hyfforddiant a'r cymwysterau proffesiynol ar gyfer hawliau penodol fel deiliad dyletswydd. Er enghraifft, byddai cymrodoriaeth Coleg Brenhinol y Radiolegwyr a chofrestriad y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn dystiolaeth addas i gael hawl fel ymarferydd RhYŷ(CM). Dylid cynnwys hefyd y trefniadau ar gyfer hysbysu deiliaid dyletswydd o'u hawl a chwmpas eu hymarfer.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr yr anfonir llythyrau at atgyfeirwyr meddygol sy'n cadarnhau eu hawl a chwmpas eu hymarfer ar gyfer atgyfeirio cleifion i'r adran. Fodd bynnag, cawsom wybod nad oedd wedi bod yn bosibl rhoi llythyr hawl i atgyfeirwyr anfeddygol. Felly, nid oedd yn glir sut roedd yr unigolion hyn yn ymwybodol o'u hawl a chwmpas ymarfer. Dylai'r cyflogwr sicrhau bod system ar waith i roi manylion i atgyfeirwyr anfeddygol am eu hawl a chwmpas ymarfer.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â rhoi hawl yn cael ei diweddaru i roi manylion am ofynion hyfforddiant a chymwysterau proffesiynol, ynghyd â'r broses ar gyfer hysbysu deiliaid dyletswydd o'u hawl a chwmpas eu hymarfer.

Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod trefniadau ar waith i roi gwybodaeth i atgyfeirwyr anfeddygol am eu hawl a chwmpas ymarfer.

Gweithdrefnau a phrotocolau

Yn unol â'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn y Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi'i ddynodi fel y cyflogwr RhYŷ(CM), gyda'r Prif Weithredwr yn cadw'r cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â bod y cyflogwr. Roedd y Prif Swyddog Gweithredol wedi dirprwyo'r tasgau cysylltiedig, mewn perthynas â RhYŷ(CM), i'r Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd. Mae'r

trefniant hwn yn dderbyniol ac roedd wedi'i fanylu'n glir yn y dogfennau a adolygwyd fel rhan o'n harolygiad.

Fel y nodwyd yn flaenorol, cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n harolygiad eu bod yn gallu cael mynediad at bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol pan fydd angen. Hefyd, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i hysbysu'r staff perthnasol ar yr achlysuron lle y gwnaed diweddariadau i weithdrefnau neu brotocolau ysgrifenedig, ynghyd ag i'r staff gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y dogfennau hyn.

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith mewn perthynas â sicrhau ansawdd gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig. Roedd y ddogfen hon yn amlinellu'r rhaglenni sicrhau ansawdd ar gyfer yr holl bolisiâu, gweithdrefnau, protocolau a chyfarpar sy'n berthnasol i RhYI(CM) 2017. Roedd y ddogfen yn nodi amllder yr adolygiad a chyfrifoldebau'r adolygiad i bob math o ddogfen a ddefnyddir yn y gwasanaeth.

Yn ogystal, roedd y weithdrefn yn amlinellu'r wybodaeth am reoli dogfennau y mae'n rhaid ei chynnwys ar bob dogfen, a oedd yn cynnwys y perchennog, y dyddiad cymeradwyo, y dyddiad adolygu a rhif y fersiwn. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, ar adeg ein harolygiad roedd y weithdrefn hon yn hwyr yn cael ei hadolygu. Yn ogystal, nid oedd yn glir o adolygu'r dogfennau pwy oedd yn gyfrifol am ddiweddarau'r dogfennau perthnasol pan fydd angen. Trafodwyd y mater hwn gyda'r uwch-reolwyr a chawsom wybod bod y mater hwn yn cael sylw a bod cynlluniau i aseinio'r cyfrifoldeb hwn i grwpiau yn y dyfodol. Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y trefniadau hyn wedi cael eu nodi'n glir yng ngweithdrefn y cyflogwr.

Yn gyffredinol, roedd y polisiâu, gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig a ddarparwyd fel tystiolaeth yn glir ac yn cynnwys y manylion gofynnol. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd trwy gydol ein hadolygiad, nodwyd rhai materion, gan gynnwys nad yw'r dogfennau sydd ar gael yn adlewyrchu ymarfer clinigol a'r trefniadau cytunedig sydd ar waith yn yr adran yn gywir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â'r gweithdrefnau a phrotocolau sicrhau ansawdd ysgrifenedig yn cael ei diweddarau i nodi'r staff sy'n gyfrifol am ddiweddarau dogfennau perthnasol yn ôl yr angen.

Achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad sylweddol ag ymbelydredd

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith yn amlinellu'r camau gofynnol ar gyfer adrodd ac ymchwilio i gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol posibl neu

wirioneddol ag ymbelydredd. Roedd y weithdrefn yn nodi'r broses sydd i'w dilyn gan y staff perthnasol i sicrhau bod y digwyddiad yn destun ymchwiliad priodol, ei fod yn cael ei ddogfennu'n briodol, ac, os bydd angen, ei fod yn cael ei adrodd i AGIC mewn modd amserol.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y trefniadau sydd ar waith mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol ac anfwriadol ag ymbelydredd, sy'n adlewyrchu'r ddogfennaeth a adolygwyd.

Dywedwyd wrthym fod yr holl ddigwyddiadau a'r digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn cael eu cofnodi trwy Datix, yr system adrodd digwyddiadau electronig, a bod cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu wedi hynny. Mae unrhyw newidiadau sy'n cael eu hargymell, o ganlyniad i unrhyw ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, yn cael eu rhannu'n rheolaidd gyda staff yr Adran Radioleg ar draws pob safle, trwy hysbysiadau canlyniadau dysgu. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod cyfarfodydd misol ag arweinwyr yr adran wedi cael eu cyflwyno i fonitro digwyddiadau Datix parhaus. Nod y cyfarfodydd hyn yw sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod camau gweithredu perthnasol yn cael eu cwblhau.

Yn ogystal, mae dadansoddiad cryno o tueddiadau a meysydd o bryder yn cael ei gwblhau, sy'n cael ei rannu'n rheolaidd yn ystod cyfarfodydd llywodraethu radioleg perthnasol y bwrdd iechyd. Darparwyd dogfen ddadansoddi a ddatblygwyd yn flaenorol fel tystiolaeth, a oedd yn cynnwys data clir a pherthnasol.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae wedi bod saith cysylltiad damweiniol neu anfwriadol ag ymbelydredd sydd wedi cael eu hadrodd yn briodol i AGIC. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd i AGIC gan y bwrdd iechyd wedi cynnwys adroddiadau ymchwilio clir a manwl sy'n amlinellu'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r digwyddiad, ynghyd â'r camau a gymerwyd i liniaru digwyddiadau pellach o natur debyg. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, amlygwyd pryderon yn dilyn y wybodaeth a adolygwyd a thrafodaethau gyda staff mewn perthynas â phroses atgyfeirio'r Adran Achosion Brys, yn dilyn digwyddiadau a digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd a gafwyd.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Fel rhan o'n harolygiad, cynhaliwyd trafodaethau gydag uwch-reolwyr y gwasanaeth, ynghyd â detholiad o staff sy'n gweithio yn yr adran. Yn ogystal, gwnaed arolwg staff ar gael i ddarparu pob aelod o staff sy'n gweithio o fewn yr adran â'r cyfle i leisio ei farn.

Yn gyffredinol, derbyniwyd ymatebion cadarnhaol gan y staff ynglŷn â'u rheolwr llinell uniongyrchol mewn perthynas â darparu cymorth, adborth ac ymgysylltiad cyn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu gwaith.

Fodd bynnag, amlygwyd yr ymatebion a dderbyniwyd o'n harolwg y dywedodd tri aelod o staff eu bod wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf. Hefyd, gwnaeth pedwar aelod o staff anghytuno bod mynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle. Trafodwyd y mater hwn gyda'r uwch-reolwyr fel rhan o'n harolygiad a rhoddwyd sicrwydd bod polisïau a phrosesau ar waith i ganiatáu i'r staff adrodd ar unrhyw gwynion. Cawsom wybod nad oedd unrhyw faterion wedi cael eu hadrodd i'r uwch-reolwyr. Yn ogystal â hyn, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod prosesau ar waith i sicrhau bod gan y staff fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle.

Fodd bynnag, gan ystyried y materion a amlygwyd yn ymatebion y staff, dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r prosesau sydd ar waith i ganiatáu i'r staff adrodd ar unrhyw faterion neu bryderon yn fewnol er mwyn sicrhau ei bod yn broses gynhwysol sy'n annog y staff i leisio eu pryderon heb ofn ymliw, ynghyd â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol. Mae hefyd yn rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael eu hatgoffa o'r broses berthnasol sydd ar waith.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr ei fod wedi cymryd amser i bennu'r lefelau staffio priodol yn yr adran ers i'r ysbyty agor, ond roeddent bellach yn teimlo bod y lefelau'n briodol ac yn ddiogel. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod lefelau staffio wedi bod yn heriol iawn yn ystod y pandemig COVID-19. Cawsom ein hysbysu y gallai staff o safleoedd eraill gyflenwi pan oedd angen.

Roedd yr adborth gan y staff yn nodi bod saith allan o 14 yn teimlo bod digon o staff yn gweithio yn yr adran 'bob amser' neu 'fel arfer' i'w galluogi i gyflawni eu rolau'n iawn, dywedodd chwech fod digon 'weithiau', a dywedodd un aelod o staff fod 'byth' digon o staff. Yn ogystal, cadarnhaodd 12 allan o'r 13 o aelodau o staff a ymatebodd i'r cwestiwn ar ein harolwg eu bod 'bob amser' neu 'fel arfer' yn gallu bodloni'r holl ofynion sy'n gwrthdaro yn ystod eu hamser yn y gwaith.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hadolygiadau datblygu arfarniadau personol blynyddol. Yn ogystal, cawsom ein hysbysu bod system ar waith i fonitro lefelau cydymffurfio'n rheolaidd. Ar adeg ein harolygiad, roedd y lefel gydymffurfio ag adolygiadau datblygu arfarniadau personol yn 82 y cant. Cawsom ein hysbysu bod rhesymau pam nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cael eu harfarniad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys absenoldeb mamolaeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau, pan fydd yn bosibl, bod arfarniadau'n cael eu cwblhau ar

gyfer yr holl aelodau o staff sy'n weddill. Yn ogystal, dywedodd 47 y cant o'r staff a ymatebodd i'n harolwg na nodwyd eu hanghenion hyfforddi, dysgu neu ddatblygu fel rhan o'u harfarniad. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod arfarniadau a gynhelir yn cwmpasu anghenion hyfforddi, dysgu a datblygu'r unigolyn fel mater o drefn.

Roedd system ar waith i fonitro cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol yn rheolaidd. Darparwyd tystiolaeth a arddangoswyd bod cydymffurfedd cyffredinol â hyfforddiant gorfodol yn yr adran yn dda. Fodd bynnag, nid oedd yr holl staff yn gyfredol gyda'u hyfforddiant gorfodol, a oedd yn cynnwys atal a rheoli heintiau a diogelu fel y nodwyd yn flaenorol.

Cadarnhaodd pob aelod o staff a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn teimlo bod eu rheolwr llinell uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant. Yn ogystal, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i ganiatáu i staff gael mynediad at gymorth llesiant iechyd galwedigaethol ychwanegol, os oes angen. Fodd bynnag, nid oedd yr holl staff a ymatebodd i'n harolwg yn ymwybodol o'r cymorth llesiant ychwanegol sydd ar gael iddynt.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod prosesau ar waith i ganiatáu i unrhyw aelod o staff adrodd ar unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod prosesau ar waith i sicrhau bod y staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal mewn perthynas â chyfleoedd yn y gweithle, ac na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn yr adran yn cael trafodaethau arfarnu rheolaidd gyda'u rheolwr llinell sy'n cwmpasu eu gofynion hyfforddi a datblygu.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yr holl staff yn yr adran yn gyfredol â gofynion hyfforddiant gorfodol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn cael gwybodaeth am y cymorth llesiant ychwanegol sydd ar gael iddynt a sut i'w gyrchu.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio

Mae AGIC yn gyfrifol am fonitro cydymffurfedd â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2017](#) a'u diwygiad dilynol (2018).

Llunnir y rheoliadau i sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag cysylltiad anfwriadol, gormodol neu anghywir ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ac, ym mhob achos, bod y risg o'r cysylltiad ag ymbelydredd yn cael ei hasesu yn erbyn y budd clinigol
- Nid yw cleifion yn cael mwy o gysylltiad ag ymbelydredd nag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg gyfredol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil feddygol yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)
- Diwallu unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel y bo'n briodol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae gwasanaethau'n derbyn rhybudd o hyd at 12 wythnos o arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un arolygydd AGIC, ac fe'u cefnogir gan uwch-swyddog clinigol o Iechyd Cyhoeddus Lloegr, yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Ysbyty: Ysbyty Athrofaol y Faenor
Ward/adran: Adran Delweddu Diagnostig
Dyddiadau'r arolygiad: 16 a 17 Tachwedd 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion dybryd ynghylch sicrwydd yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Athrofaol y Faenor
Ward/adran: Adran Delweddu Diagnostig
Dyddiadau'r arolygiad: 16 a 17 Tachwedd 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu gwybodaeth ychwanegol am gyngor a chymorth gofal iechyd cyffredinol yn yr adran.	1.1 Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd	Mae posterï sy'n hyrwyddo rhoi'r gorau i ysmegu, cymorth iechyd meddwl a gwybodaeth am gamddefnyddio alcohol bellach yn cael eu harddangos yn yr ystafelloedd aros yn yr Adran Radioleg. Mae hyn wedi cael ei fabwysiadu gan bob safle ar draws y gyfarwyddiaeth radioleg.	Andrea Boycott Rheolwr Gwasanaethau Acíwt Radioleg	Cwblhawyd
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â darparu gwybodaeth am fuddion a risgiau i'r cleifion yn cael ei	Rheoliad 6 Atodlen 2 (i)	Bydd dogfen weithdrefn 2(i) yn cael ei diweddarau i gynnwys gwybodaeth am yr achlysuron lle na allai fod yn ymarferol i	Mark Wilkes, Rheolwr	30 Ebrill 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
diweddarau i roi manylion am yr achlysuron pan na allai fod yn ymarferol i staff gael y trafodaethau hyn â'r cleifion.		gynnal y trafodaethau hyn â'r cleifion. Bydd y ddogfen weithdrefn ddiwygiedig yn cael ei thrafod yn ystod cyfarfod nesaf y Grŵp Gweithredol Radioleg cyn cael ei chadarnhau gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol Radioleg.	Gwasanaethau Radioleg	
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i ddarparu staff a chleifion gyda diweddariadau rheolaidd ar yr adborth profiad cleifion a dderbyniwyd gan y gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerir.	6.3 Gwrandio a dysgu o adborth	Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal archwiliadau adborth cleifion bob chwarter sy'n benodol i safle trwy holiaduron papur. Bydd Bwrdd Arddangos Profiad y Claf yn cael ei roi yn yr ystafelloedd aros i gleifion er mwyn rhoadru diweddariadau rheolaidd ar adborth profiad y claf gyda sylwadau ac unrhyw gamau cysylltiedig.	Andrea Boycott, Rheolwr Gwasanaethau Acíwt Radioleg	Cwblhawyd 30 Ebrill 2022
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau ymholiadau beichiogrwydd yn rheolaidd, pan fo angen, a bod cofnodion	Rheoliad 6 Atodlen 2(c)	Mae archwiliadau cardiau ceisiadau'n cael eu cynnal bob chwarter a'u cyflwyno i'r Grŵp Amddiffyn rhag Ymbelydredd. Mae'r archwiliadau'n monitro cydymffurfedd â gwiriadau	Andrea Boycott, Rheolwr Gwasanaethau Acíwt Radioleg	31 Mawrth 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cleifion yn cael eu diweddarau'n gyson i arddangos bod ymholiad wedi'i gwblhau.		beichiogrwydd ac a ydynt wedi cael eu dogfennu'n llawn, ymhlith meini prawf eraill. Bwriedir i'r archwiliadau hyn fod yn barhaus, gydag amllder ond yn lleihau i bob chwe mis pan fyddwn yn cyflawni cydymffurfedd mwyaf yn gyson am tri chylch olynol. Bydd addysg a hyfforddiant penodol yn cael eu llunio a'u rhaeadru i'r staff i sicrhau bod dealltwriaeth o bwysigrwydd ymholiadau beichiogrwydd a pham y dylid cofnodi hyn yn gyson. Cyflwynir hyn trwy gyflwyniadau PowerPoint a negeseuon e-bost a chaiff ei ailadrodd yn ystod cyfarfodydd staff.		
Mae'n rhaid i'r cyflogwr roi sicrwydd i AGIC y caiff system atgyfeirio'r Adran Achosion Brys ei hadolygu i sicrhau bod camau a mesurau lliniaru angenrheidiol wedi'u gweithredu i atal achosion damweiniol ac anfwriadol pellach o gysylltiad ag ymbelydredd.	Rheoliad 8 (4)(a)(iv)	Parhau i atgyfnerthu'r system alw gyfredol, lle mae atgyfeirwyr yr Adran Achosion Brys yn cysylltu â'r tîm tomograffeg gyfrifiadurol i gadarnhau manylion y claf ar gyfer yr atgyfeiriad y maent wedi'i wneud, hyd nes bod y camau isod yn cael eu gweithredu.	Alastair Richards (Ymgynghorydd yr Adran Achosion Brys, Cyfarwyddwr Clinigol yr Adran Achosion Brys)	Yn barhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae cynlluniau ar waith i ddechrau cynllun peilot lle bydd atgyfeirwyr yr Adran Achosion Brys yn rhoi strap arddwrn ar glaf ar ôl gwneud y penderfyniad i wneud atgyfeiriad i'r Adran Radioleg – bydd yr atgyfeiriwr yn ysgrifennu ar y strap arddwrn pa sgan neu belydr-X y gofynnir amdano. Pan fydd y claf yn cyrraedd yr Adran Radioleg, bydd y wybodaeth ar y strap arddwrn yn cael ei chyfatebu i'r atgyfeiriad radioleg ac ni fydd y sgan yn parhau os oes unrhyw anghysondebau. Os nad yw'r claf yn gwisgo strap arddwrn, bydd yn cael ei ddychwelyd i'r Adran Achosion Brys heb sgan. Bydd y cynllun peilot hwn yn cael ei adolygu ar ôl tri mis i asesu ei effaith a'i lwyddiant. Mae'r posibilrwydd o ychwanegu ffenestr naid ar Symphony i gadarnhau'r sgan a manylion y claf (cyn bod y cais radioleg yn cael ei anfon) yn cael ei archwilio gyda gweinyddwyr system Symphony.	Rob Stafford (Ymgynghorydd yr Adran Achosion Brys) Cari Randall (Arweinydd y Gwasanaeth Gofal Heb ei Drefnu)	Dyddiad dechrau: Mawrth 2022 Dyddiad adolygu: 30 Ebrill 2022 30 Ebrill 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl atgyfeiriadau theatr yn rhoi manylion yr atgyfeiriwr a'r ymarferydd ar gyfer y cysylltiad ag ymbelydredd y gofynnwyd amdano.	Rheoliad 6(2)	Mae archwiliadau cardiau ceisiadau'n cael eu cynnal bob chwarter a'u cyflwyno i'r Grŵp Amddiffyn rhag Ymbelydredd. Mae'r archwiliadau'n monitro a yw'r atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r gweithredwr wedi'u nodi'n glir ar y ffurflen, ymhlith meini prawf eraill. Bwriedir i'r archwiliadau hyn fod yn barhaus, gydag amllder ond yn lleihau i bob chwe mis pan fyddwn yn cyflawni cydymffurfedd mwyaf yn gyson am tri chylch olynol. Bydd addysg a hyfforddiant penodol yn cael eu llunio a'u rhaeadru i'r staff i sicrhau bod dealltwriaeth o bwysigrwydd nodi deiliaid dyletswydd yn glir ar gyfer atgyfeiriadau theatr a pham y dylid cofnodi hyn yn gyson. Cyflwynir hyn trwy gyflwyniadau PowerPoint a negeseuon e-bost a chaiff ei ailadrodd yn ystod cyfarfodydd staff.	Andrea Boycott, Rheolwr Gwasanaethau Acíwt Radioleg	31 Mawrth 2022
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio yn cael ei ddiweddarau i gynnwys gofynion hyfforddiant a	Rheoliad 6 Atodlen 2(b)	Bydd y Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio yn cael ei ddiweddarau i gynnwys gofynion hyfforddiant a	Andrew Carter, Arweinydd Gweithwyr	31 Mawrth 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
chymwysterau proffesiynol penodol ar gyfer rolau deiliaid dyletswydd penodol.		chymwysterau proffesiynol ar gyfer rolau deiliaid dyletswydd penodol.	Proffesiynol Radioleg	
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn berthnasol y cyflogwr yn cael ei diweddarau i adlewyrchu manylion y trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer gwerthusiadau clinigol sy'n cael eu cwblhau gan y gweithredwyr hynny â hawl sy'n cynnal gwerthusiadau clinigol y tu allan i'r Adran Radioleg.	Rheoliad 6 Atodlen 2 (j)	Bydd y weithdrefn cyflogwr 2(j) yn cael ei diweddarau i gynnwys mwy o fanylion ynghylch deiliaid dyletswydd sydd â'r hawl i gynnal gwerthusiadau clinigol y tu allan i'r Adran Radioleg, megis cardiolegwyr, llawfeddygon orthopedig, darparwyr trydydd parti ac ati. Bydd hyn yn cynnwys cwmplas eu rolau fel deiliaid dyletswydd, tasgau, y lefel ddisgwyliedig o hyfforddiant/profiad, ynghyd â sut maent yn cael eu hysbysu am eu cyfrifoldebau a'u hawliau.	Mark Wilkes Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30 Ebrill 2022
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod dyddiad adolygu'n cael ei ychwanegu i stocrestr y cyfarpar i sicrhau bod y cynnwys yn cael ei gadw'n gyfredol fel mater o drefn.	Rheoliad 15 (1)(b)	Mae dyddiad cyhoeddi, dyddiad adolygu nesaf ac awduron y ddogfen wedi cael eu hychwanegu at y stocrestr o gyfarpar i adlewyrchu gofynion dogfen weithdrefn 2(d).	Andrea Boycott, Rheolwr Gwasanaethau Acíwt Radioleg	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r cyflogwr ystyried diweddarau polisi sicrhau ansawdd y bwrdd iechyd i adlewyrchu'r cyfarpar perthnasol sydd ar gael yn yr adran.	Rheoliad 15(1)(a) Rheoliad 6 Atodlen 2 (d)	Bydd y polisi sicrhau ansawdd yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r cyfarpar perthnasol sydd ar gael yn yr adran.	Mark Wilkes, Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	28 Chwefror 2022
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn cyflogwr sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd dogfennau a chyfarpar yn cael ei hadolygu a'i diweddarau.	Rheoliad 6 Atodlen 2(d)	Bydd y dyddiad adolygu ar y weithdrefn cyflogwr sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd dogfennau a chyfarpar yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu ei ddyddiad adolygu diweddaraf.	Andrea Boycott, Rheolwr Gwasanaethau Acíwt Radioleg	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau y rhoddir eglurder i'r uwch-staff perthnasol mewn perthynas â gofynion llywodraethu a RhYI(CM) / Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio ar gyfer cyfarpar fflworosgopeg braich siâp C fach yr Adran Orthopedig.	Rheoliad 17(1) Rheoliad 15 Rheoliad 16(4) Rheoliad 12	Mae cyfarfod cychwynnol wedi cael ei gynnal rhwng timau uwch-reolwyr radioleg ac orthopedig er mwyn i'r tîm radioleg allu cynnig cymorth i reoli cydymffurfedd â RhYI(CM) / Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio. Mae gwaith yn cael ei wneud i gytuno ar y strwythur rheoli a llywodraethu.	Andrew Carter, Arweinydd Gweithwyr Proffesiynol Radioleg Arvind Kumar, Gofal wedi'i Drefnu Meddygaeth Gyffredinol Acíwt	28 Chwefror 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn cael gwybodaeth sy'n amlinellu'r camau gofynnol i adrodd ar unrhyw bryderon mewn perthynas ag ymarfer clinigol anniogel yn yr adran.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth 7.1 Y gweithlu	Byddwn yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn Cymru gyfan ar gyfer staff y GIG i godi pryderon trwy ddulliau electronig a phosteri gweladwy. Bydd Atodiad 5 yn y weithdrefn hon, sef siart lif sy'n arddangos y 'Broses o Godi Pryderon', yn cael ei ddosbarthu i'r staff a'i arddangos mewn adrannau i atgoffa'r staff o'r broses.	Andrea Boycott, Rheolwr Gwasanaethau Acíwt Radioleg	28 Chwefror 2022
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu sicrwydd bod dulliau ar waith i alluogi staff i godi pryderon yn ddiogel ynglŷn ag ymarfer clinigol anniogel ac i sicrhau bod pryderon a godir yn destun ymchwiliad ac yn cael sylw fel mater o drefn.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth 7.1 Y gweithlu	Fel tîm o uwch-reolwyr radioleg, byddwn yn parhau i glynu at y weithdrefn Cymru gyfan ar gyfer staff y GIG i godi pryderon. Bydd y broses ar gyfer codi pryderon am ymarfer clinigol anniogel yn cael ei hailadrodd i'r staff. Cynigir sicrwydd i'r staff bod y rheolwyr ar gael i fynd atynt er mynd codi pryderon ac y bydd pryderon yn cael eu trin yn gyfrinachol iawn ac yn destun ymchwiliad trylwyr. Bydd Atodiad 5 'Siart Lif y Broses o Godi Pryderon', sydd wedi'i gymryd o'r weithdrefn Cymru gyfan ar gyfer staff y GIG i godi pryderon, yn cael ei	Andrew Carter, Arweinydd Gweithwyr Proffesiynol Radioleg Arvind Kumar, Gofal wedi'i Drefnu Meddygaeth Gyffredinol Acíwt	28 Chwefror 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ddosbarthu i'r holl staff a'i arddangos mewn adrannau er mwyn atgoffa'r staff o'r broses.		
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y dogfennau perthnasol yn cael eu diwedddaru i egluro'r unigolion sy'n gyfrifol am gwblhau archwiliadau yn yr amserlen archwilio adrannol.	Rheoliad 6(2) Rheoliad 7	Bydd dogfen weithdrefn 2(d) (Gweithdrefn i sicrhau bod rhaglenni sicrhau ansawdd yn cael eu dilyn) yn cael ei diwedddaru i gynnwys amserlen archwilio'r adran ar gyfer cydymffurfio â RhYŷ(CM) ac archwiliadau clinigol, a'r unigolion sy'n gyfrifol am gwblhau'r archwiliadau.	Rebecca Wallace, Arweinydd Ymchwil Radioleg	30 Ebrill 2022
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gan y staff perthnasol gapasiti digonol i ymgymryd â'u cyfrifoldebau clinigol a'u cyfrifoldebau archwilio o dan RhYŷ(CM).	Rheoliad 6(2) Rheoliad 7	Wrth i bwysau'r pandemig a'r heriau staffio cysylltiedig yn cael eu llacio, rydym yn hyderus y bydd yn bosibl i neilltuo mwy o amser i ymgymryd ag archwiliadau clinigol ac archwiliadau RhYŷ(CM). Mae cyfarfod archwilio bob chwarter ar waith sy'n cael ei arwain gan y radioledwyr ymgynghorol ac mae'n atebol i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Felly, bydd unrhyw ddiffygion o ran gallu digonol i ymgymryd ag archwiliadau yn	Andrew Carter, Arweinydd Gweithwyr Proffesiynol Radioleg	30 Mehefin 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cael eu pwysleisio'n gyflym a byddant yn cael sylw mewn modd amserol.		
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas â chysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil gwaith ymchwil yn cael ei diweddarau i nodi na chynhelir y cysylltiadau hyn ag ymbelydredd yn yr adran yn y Faenor.	Rheoliad 6 Atodlen 2(g)	Mae gweithdrefn cyflogwr 2(g) wedi cael ei diweddarau i nodi'r safleoedd lle y cynhelir cysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil gwaith ymchwil ac i nodi na chynhelir y cysylltiadau hyn yn yr adran yn y Faenor ar hyn o bryd.	Andrea Boycott, Rheolwr Gwasanaethau Acíwt Radioleg	Cwblhawyd
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas â cysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil gwaith ymchwil yn cael ei diweddarau i gynnwys manylion ar sut y caiff y protocol archwilio cywir i bob rhaglen ymchwil ei nodi, lle mae'n cael ei nodi, a sut i gyrchu'r wybodaeth hon.	Rheoliad 6 Atodlen 2(g)	Bydd gweithdrefn cyflogwr 2(g) yn cael ei diweddarau i gynnwys manylion ynghylch sut mae'r protocol archwilio cywir i bob rhaglen ymchwil yn cael ei nodi, lle mae'n cael ei gofnodi, a sut i gyrchu'r wybodaeth hon.	Rebecca Wallace, Arweinydd Ymchwil	31 Mawrth 2022
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â rhoi hawl yn cael ei diweddarau i roi manylion am ofynion hyfforddiant	Rheoliad 6 Atodlen 2(b)	Bydd dogfen weithdrefnol y cyflogwr sy'n ymwneud â hawl 2(b) yn cael ei diweddarau i gynnwys gofynion	Andrew Carter	31 Mawrth 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
a chymwysterau proffesiynol, ynghyd â'r broses ar gyfer hysbysu deiliaid dyletswydd o'u hawl a chwmpas eu hymarfer.		hyfforddiant y deiliad dyletswydd a'r gofynion cymhwysedd ar gyfer pob un o'r rolau deiliad dyletswydd. Yn ogystal, ar gyfer hawl deiliad dyletswydd benodol, bydd y cymwysterau proffesiynol yn cael eu diweddarau yn y ddogfen. Er bod yr atgyfeirwyr meddygol eisoes yn cael eu hysbysu o'u hawliau trwy lythyr, bydd yr atgyfeirwyr anfeddygol bellach yn derbyn cyfathrebiad hefyd sy'n eu hysbysu o gwmpas ymarfer eu hawl.	Arweinydd Proffesiynol Radioleg	
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod trefniadau ar waith i roi gwybodaeth i atgyfeirwyr anfeddygol am eu hawl a chwmpas ymarfer.	Rheoliad 6 Atodlen 2(b)	Bydd dogfen weithdrefnol y cyflogwr sy'n ymwneud â hawliau 2(b) yn cael ei diweddarau i gynnwys y trefniadau sydd ar waith. Mae'r atgyfeirwyr meddygol eisoes yn cael eu hysbysu o'u hawliau trwy lythyr, a bydd yr atgyfeirwyr anfeddygol bellach yn derbyn cyfathrebiad hefyd sy'n eu hysbysu o'u hawl a chwmpas eu hymarfer ac i annog y grŵp atgyfeirwyr meddygol i adolygu a diweddarau ei brotocol.	Mark Wilkes Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30 Ebrill 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â'r gweithdrefnau a phrotocolau sicrhau ansawdd ysgrifenedig yn cael ei diweddarau i nodi'r staff sy'n gyfrifol am ddiweddarau dogfennau perthnasol yn ôl yr angen.	Rheoliad 6 Atodlen 2 (d)	Ar hyn o bryd, mae gweithdrefn y cyflogwr yn nodi pa grŵp sy'n gyfrifol am ddiweddarau dogfennau perthnasol. Bydd y weithdrefn yn cael ei diweddarau i nodi cadeirydd pob grŵp fel ei fod yn fwy clir pwy sy'n gyfrifol am ddiweddarau dogfennau perthnasol yn ôl yr angen.	Mark Wilkes Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	31 Mawrth 2022
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod prosesau ar waith i ganiatáu i unrhyw aelod o staff adrodd ar unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol.	Safon 7.1 Y gweithlu Safon 6.2 Hawliau pobl	Bydd y cyfarwyddiaeth radioleg yn adolygu ein prosesau cyfredol sydd ar waith, a fydd yn galluogi'r staff i godi pryderon yn fewnol mewn amgylchedd diogel lle mae eu materion yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol ac amserol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Wedyn, byddwn yn anfon e-bost at yr holl staff gyda'r weithdrefn ar gyfer adrodd ar bryderon, gan bwysleisio natur gynhwysol a chefnogol y broses.	Andrew Carter Rheolwr Gwasanaethau Radioleg Arvind Kumar, Gofal wedi'i Drefnu Meddygaeth Gyffredinol Acíwt	31 Mawrth 2022
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod prosesau ar waith i sicrhau bod y staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal mewn perthynas â chyfleoedd yn y gweithle, ac na fydd unrhyw	Safon 7.1 Y gweithlu Safon 6.2 Hawliau pobl	Mae cyfleoedd mewnol yn y gweithlu bob amser yn cael eu hysbysebu ar draws pob safle a chroesawir mynegiadau o ddiddordeb gan yr holl bartïon â diddordeb. Mae posteri am y cyfleoedd	Andrea Boycott, Rheolwr Gwasanaethau Acíwt Radioleg	31 Mawrth 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd.		yn cael eu harddangos mewn adrannau ar draws y gyfarwyddiaeth ac mae negeseuon sy'n tynnu sylw'r staff at y cyfle yn cael eu rhannu yng ngrwpiau WhatsApp timau i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol. Wrth gynnal cyfweiliadau, mae o leiaf un o aelodau'r panel cyfweld yn cael eu dethol o safle arall (lle y bo'n bosibl o safle lle nad yw unrhyw un o'r ymgeiswyr wedi'u lleoli) i roi tystiolaeth o ymrwymiad yr Adran Radioleg at gynnal brosesau dethol teg a diduedd. Mae posteri yn eu lle yn atgoffa staff na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd. Mae'r staff yn cael eu cefnogi i adrodd unrhyw achosion o wahaniaethu a bydd hyn yn cael ei ailadrodd yn ystod y cyfarfodydd staff ac yn electronig.	Arvind Kumar, Gofal wedi'i Drefnu Meddygaeth Gyffredinol Acíwt	
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn yr adran yn cael	7.1 Y gweithlu	Mae cydymffurfedd ag adolygiadau datblygu arfarniadau personol yn cael ei	Andrea Boycott, Rheolwr	31 Mawrth 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
trafodaethau arfarnu rheolaidd gyda'u rheolwr llinell sy'n cwmpasu eu gofynion hyfforddi a datblygu.		fonitro bob mis gan y Grŵp Gweithredol Radioleg. Mae grŵp o radiograffwyr Band 6 wedi cael eu hyfforddi i reoli a chyflwyno adolygiadau datblygu arfarniadau personol i staff llai profiadol, gan felly raeadru'r broses arfarnu a sicrhau bod arfarniadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol. Mae amser penodol wedi'i neilltuo ar gyfer arfarniadau er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau. Mae taenlen yn bodoli sy'n hygyrch i'r holl staff yn Ysbyty Athrofaol y Faenor er mwyn iddynt allu weld pwy yw eu harfarnwr a phryd bydd eu harfarniad nesaf yn cael ei gynnal. Mae'r rheolwr llinell yn adolygu hon yn rheolaidd i sicrhau bod adolygiadau datblygu arfarniadau personol yn cael eu rheoli'n effeithiol ym mhob tîm.	Gwasanaethau Acíwt Radioleg	

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn yr adran yn gyfredol â gofynion hyfforddiant gorfodol.	7.1 Y gweithlu	Nod yr Adran Radioleg yw cynyddu'r nifer o hyfforddwyr rhaeadru ar gyfer hyfforddiant gorfodol er mwyn lleihau ein dibyniaeth ar hyfforddiant canolog. Mae 'Canllawiau sut i' wedi cael eu creu ar gyfer anomaledau cydymffurfedd gorfodol â system y Cofnod Staff Electronig.	Andrea Boycott, Rheolwr Gwasanaethau Acíwt Radioleg	31 Mawrth 2022
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn cael gwybodaeth am y cymorth llesiant ychwanegol sydd ar gael iddynt a sut i'w gyrchu.	1.1 Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd 7.1 Y gweithlu	Mae poster i'n cael eu harddangos yn yr adran sy'n pwysleisio'r cymorth sydd ar gael i'r staff o ran llesiant. Mae cyfarfodydd â chofnodion wedi cael eu cynnal sydd wedi trafod yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer llesiant y staff. Mae'r staff yn cael eu hatgoffa am y cymorth hwn, ac yn benodol Gwefan Llesiant Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, sydd ag ystod helaeth o adnoddau, yn ystod eu hadolygiadau datblygu arfarniadau personol ac unrhyw gyfweiliadau 'dychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb oherwydd salwch' neu gyfarfodydd salwch hirdymor.	Andrea Boycott, Rheolwr Gwasanaethau Acíwt Radioleg	31 Mawrth 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd cymorth llesiant yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd staff nesaf yr is-adran, a bydd y cofnodion yn cael eu rhannu â'r tîm dros neges e-bost i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): **Andrea Boycott**

Swydd: Rheolwr Gwasanaethau Acíwt Radioleg

Dyddiad: 02.02.2022

